

# **Crynodeb o'r Bil:** Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6320**

E-bost: **[Philippa.Watkins@assembly.wales](mailto:Philippa.Watkins@assembly.wales)**

Twitter: **[@SeneddResearch](https://twitter.com/SeneddResearch)**

Blog: **[SeneddResearch.blog](http://SeneddResearch.blog)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Crynodeb o'r Bil:** Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

**Awdur:** Philippa Watkins  
**Dyddiad:** Mehefin 2018  
**Rhif yr ymholiad:** 18-022



# Contents

<b>1. Rhagarweiniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Cymhwysedd Deddfwriaethol .....</b>	<b>2</b>
<b>3. Prif elfennau'r Bil .....</b>	<b>3</b>
<b>4. Cefndir y Bil .....</b>	<b>4</b>
Bil drafft Llywodraeth Cymru .....	4
Model Polisi Alcohol Sheffield .....	5
<b>5. Goblygiadau ariannol y Bil .....</b>	<b>7</b>
<b>6. Ymateb i'r Bil .....</b>	<b>8</b>
<b>7. Crynodeb o newidiadau Cyfnod 2 .....</b>	<b>9</b>

# 1. Rhagarweiniad

Cyflwynwyd **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)**, gan Rebecca Evans AC, Y Gweinidog dros Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 23 Hydref 2017. Ym mis Tachwedd 2017, yn dilyn newid ym mhortffolios y Gweinidogion, fe wnaeth y Prif Weinidog awdurdodi Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel yr Aelod newydd a oedd yn gyfrifol am y Bil.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer isafbris ar gyfer gwerthu/cyflenwi alcohol yng Nghymru, ac yn ei gwneud yn drosedd i alcohol gael ei werthu am lai na'r pris hwnnw. Bydd yr isafbris gwerthu yn cael ei gyfrifo yn unol â fformiwla yn seiliedig ar isafbris fesul uned o alcohol (y cyfeirir ato fel isafbris uned). Nid yw'r isafbris uned wedi'i nodi ar wyneb y Bil a bydd yn cael ei bennu mewn rheoliadau. Defnyddir isafbris uned o 50c fel enghraifft yn y **Memorandwm Esboniadol** a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

Diben pennu isafbris yw ceisio lleihau lefelau yfed peryglus a niweidiol<sup>1</sup>. Fel y disgrifiwyd yn y Memorandwm Esboniadol, byddai'r ddeddfwriaeth yn rhan o ddull strategol ehangach Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

Amcan pennaf y Bil yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i ysbytai y gellid eu priodoli i alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, drwy leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr niweidiol a pheryglus. Yn benodol, mae'r Bil yn cael ei anelu at ddiogelu iechyd yfwyr niweidiol a pheryglus (gan gynnwys pobl ifanc) sy'n dueddol o yfed symiau uwch o gynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel. (Y Memorandwm Esboniadol, t.8, para.14)

Ni fyddai'r cynigion yn cynyddu pris pob diod alcohol, dim ond y rhai hynny a werthir ar hyn o bryd yn rhatach na'r isafbris. Mae'n debygol y bydd yr effaith bennaf ar alcohol a werthir mewn archfarchnadoedd a siopau all-drwyddedig, yn enwedig cynnyrch cost cymharol isel/cryfder uchel, a lle caiff ei werthu fel amleitem neu fel rhan o ymgyrch i hybu gwerthiant. Ni ddisgwylir i hyn effeithio

---

<sup>1</sup>Diffinnir lefel 'beryglus' fel yfed rhwng 14 a 50 uned o alcohol yr wythnos yn achos dynion a rhwng 14 a 35 uned yn achos menywod. Mae lefel 'niweidiol' dros 50 uned yr wythnos yn achos dynion a dros 35 uned yr wythnos yn achos menywod.

---

rhyw lawer ar y fewnfasnach (ee tafarndai a chlybiau) gan eu bod fel arfer yn gwerthu ymhell uwchlaw'r isafbrisiau dan sylw.

Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'w ystyried, gan nodi y dylid cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn 16 Chwefror 2018. Yn dilyn cais gan y Pwyllgor am ragor o amser i orffen ei waith, cytunodd y Pwyllgor Busnes y gallai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 2 Mawrth 2018.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ei **adroddiad** ar Gyfnod 1 y Bil ar 5 Mawrth 2018.

Bu'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd yn ystyried y Bil, a byddant yn cyflwyno adroddiad ar **28 Chwefror** a **5 Mawrth** yn y drefn honno.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan fel a ganlyn:

“Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae darpariaethau perthnasol Deddf 2006 wedi'u nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.

Mae paragraffau 9, 12 a 15 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 yn amlinellu'r pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt: (Nid yw'r testun hwn ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi'i gwneud yn Gymraeg ydyw.)

Paragraff 9: Iechyd a gwasanaethau iechyd:

Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.

Paragraff 12: Llywodraeth leol:

...Powers and duties of local authorities and their members and officers...

Paragraff 15: Lles cymdeithasol:

...Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults...”.

Cyhoeddodd y Llywydd **ddatganiad** ar 23 Hydref 2017 yn cadarnhau bod darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Cyflwynwyd y Bil i'r Cynulliad o fewn cyd-destun ehangach, sef bod deddfwriaeth yr Alban yn cael ei herio yng Ngoruchaf Lys y DU. Roedd y Scotch Whisky Association wedi dadlau bod Deddf Alcohol (Isafbris) (Yr Alban) 2012 yn anghydnaws â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Ar 15 Tachwedd 2017 gwrthododd y Goruchaf Lys yr her yn unfrydol. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Mae dyfarniad unfrydol y Goruchaf Lys yn cynnal canfyddiad Llys y Sesiwn fod cyflwyno isafbris am alcohol yn yr Alban yn cyd-fynd â chyfraith yr UE. Mae'n ystyried bod gosod isafbris yn ffordd gymesur o fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r dyfarniad yn cadarnhau mai mater i'r ddeddfwrfa ddatganoledig sydd wedi'i hethol yn ddemocrataidd yw penderfynu sut i gydbwyso rhwng diogelu iechyd a materion masnachol, gan ddatgan yn gwbl glir na ddylai'r llysoedd geisio rhagdybio'r gwerth y mae deddfwrfa domestig yn ei roi ar iechyd.”

### 3. Prif elfennau'r Bil

Mae adran 1 o'r Bil yn pennu'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris gwerthu am alcohol. Mae hyn yn seiliedig ar ar isafbris am bob uned o alcohol. Fol y soniwyd eisoes, nid yw'r isafbris uned wedi'i nodi ar wyneb y Bil a bydd yn cael ei bennu mewn rheoliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn defnyddio isafbris uned o 50c fel enghraifft.

Y fformiwla a gynigir yw isafbris uned x cryfder x cyfaint. Er enghraifft (gan dybio isafbris uned o 50c), byddai isafswm pris gwerthu potel tair litr o seidr gyda chryfder o 7.5% yn £11.25 (0.50 x 7.5 x 3).

O dan adran 2, bydd yn drosedd i fanwerthwr alcohol gyflenwi alcohol, neu awdurdodi cyflenwi alcohol, am bris gwerthu islaw'r isafbris perthnasol.

Mae'r Bil yn sefydlu trefniadau gorfodi wedi'u harwain gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys pwerau i erlyn, pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig, y

drosedd o rwystro swyddog awdurdodedig a'r pŵer i roi hysbysiadau cosb benodedig.

Rhaid i Weinidogion Cymru adrodd ar weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd, gan ddechrau ar y diwrnod y daw'r drosedd o gyflenwi alcohol islaw'r isafbris i rym (adran 21).

Bydd y gyfundrefn isafbris a sefydlwyd gan y Bil yn peidio â bod yn effeithiol chwe blynedd o'r dyddiad y daw trosedd adran 2 i rym, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau sy'n darparu fel arall (adran 22). Ni ellir gwneud y rheoliadau hyn tan o leiaf bum mlynedd ar ôl i drosedd adran 2 ddod i rym. Os na wneir unrhyw reoliadau o'r fath erbyn diwedd y cyfnod o chwe blynedd, mae'r darpariaethau isafbris yn cael eu diddymu. Os gwneir rheoliadau, bydd y darpariaethau isafbris yn parhau am gyfnod amhenodol, oni bai y cânt eu diddymu gan Ddeddf ddilynol.

## 4. Cefndir y Bil

### Bil drafft Llywodraeth Cymru

Yn 2015, **ymgyngorodd** Llywodraeth Cymru ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) drafft. Yn ôl y **crynodeb o'r ymatebion** a gyhoeddwyd, roedd consensws eang y byddai isafbris uned o 50c am alcohol o fudd i Gymru gyfan drwy leihau'r alcohol sy'n cael ei yfed a'r niwed sy'n gysylltiedig ag ef. Roedd 131 (o 194) o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno deddfwriaeth (yn bennaf sefydliadau iechyd, academyddion, y sector gwirfoddol (gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli pobl hŷn a phlant/pobl ifanc), ac aelodau o'r cyhoedd). Roedd 39 yn erbyn y cynnigion (a oedd yn bennaf yn cynrychioli'r diwydiant alcohol a manwerthwyr, ac aelodau'r cyhoedd). Roedd 24 o ymatebwyr nad oedd yn gefnogol nac yn erbyn y cynnigion.

Roedd y Bil drafft yn dilyn ymgynghoriad cynharach ar gynigion i gyflwyno isafbris am alcohol a gynhwyswyd yn y papur gwyn iechyd y cyhoedd **Gwranddo arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig** ym mis Ebrill 2014.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft, gwnaed nifer o newidiadau i'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Mae'r rhain yn cynnwys y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad ar weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth ar ôl pum mlynedd (adran 21), a'r 'cymal machlud' yn diddymu'r darpariaethau isafbris ar ôl cyfnod o chwe mlynedd, oni bai fod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau sy'n darparu fel arall (adran 22).



## Model Polisi Alcohol Sheffield

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amlygu'r cysylltiad rhwng pris alcohol a'r defnydd ohono, a defnydd a niwed, a ddangosir yng ngwaith modelu Prifysgol Sheffield. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gyhoeddir fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, yn dibynnu'n helaeth ar Fodel Sheffield.

Yn 2009, datblygodd Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield (SARG) ym Mhrifysgol Sheffield Fodel Polisi Alcohol Sheffield i asesu effaith bosibl polisiâu alcohol, gan gynnwys lefelau gwahanol o isafbrisiau uned, ar gyfer poblogaeth Lloegr. Addaswyd y model wedyn ar gyfer ardaloedd eraill, gan gynnwys yr Alban a Chanada.

Yn 2014 comisiynwyd SARG gan Lywodraeth Cymru i addasu'r model ar gyfer Cymru. Daeth **yr addasiad o Fesur Polisi Alcohol Sheffield ar gyfer Cymru** i'r casgliad:

- y byddai polisiâu isafbris uned yn effeithiol o ran lleihau'r defnydd o alcohol, y niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol (gan gynnwys marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, derbyniadau i'r ysbyty, troseddau ac absenoldeb o'r gwaith) a'r costau sy'n gysylltiedig â'r niwed hwnnw;
- dim ond effaith fach y byddai polisiâu isafbris uned yn ei chael ar yfwyr cymedrol; byddai'r effeithiau ar yr yfwyr â risg gynyddol yn fwy, a byddai'r effeithiau mwyaf sylweddol yn cael eu teimlo gan yfwyr risg uchel;
- byddai polisiâu isafbris uned yn cael mwy o effaith ar y rhai sy'n byw mewn tlodi, yn enwedig yfwyr risg uchel, na'r rhai nad ydynt yn byw mewn tlodi. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n byw mewn tlodi hefyd yn elwa mwy o ran eu hiechyd, ac amcangyfrifir y bydd yfwyr risg uchel yn lleihau eu gwariant rhyw fymryn oherwydd lefelau yfed is.

Amcangyfrifir mai cyfanswm gwerth cymdeithasol y gostyngiad mewn niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn seiliedig ar gyflwyno isafbris uned o 50c, fydd £882 miliwn dros gyfnod o 20 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys costau gofal iechyd uniongyrchol (£131 miliwn), costau troseddu (£248 miliwn), costau gweithle (£14 miliwn) a phrasiad ariannol o fanteision iechyd a fesurir ar sail **blynyddoedd oes wedi eu haddasu yn ôl ansawdd** (£489 miliwn), gan dybio mai gwerth un flwyddyn oes wedi ei addasu yn ôl ansawdd yw £60,000.

Ym mis Mehefin 2017, comisiynwyd SARG gan Lywodraeth Cymru i fodelu effaith bosibl polisi isafbris uned am alcohol, gan ddefnyddio data newydd a dulliau modelu newydd, a sut y gallai hyn gymharu â'r cynnydd mewn tollau ar alcohol.

Ym mis Tachwedd 2017 cyhoeddodd SARG **adroddiad interim**, cyn i'r adolygiad llawn gael ei gyhoeddi. Cyflwynodd yr adroddiad interim ganlyniadau cychwynol ynglŷn â'r effaith a amcangyfrifir ar ganlyniadau iechyd.

Ym mis Chwefror 2018, cynhyrchoedd SARG ei adroddiad terfynol ar gyfer Llywodraeth Cymru, Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisiâu isafbris uned a threthu yng Nghymru. Daeth i'r casgliadau a ganlyn:

- Byddai isafbris uned a osodwyd rhwng 35c a 70c yn effeithiol o ran lleihau'r defnydd o alcohol ymhlith yfwyr peryglus ac, yn arbennig, yfwyr niweidiol. Byddai'r gostyngiadau hyn yn y defnydd yn arwain at ostyngiadau mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, a derbyniadau i ysbytai. Mae lefelau uwch o isafbris uned yn arwain at fwy o ostyngiadau o ran defnydd a niwed.
- Byddai yfwyr cymedrol ond yn gweld effeithiau bach ar eu defnydd o alcohol a'u gwariant yn sgil cyflwyno isafbris uned. Y rheswm dros hyn yw eu bod yn tueddu i brynu alcohol a fyddai'n destun cynnydd bach neu braidd ddim cynnydd yn y pris dan y polisi. Mae lefelau uwch o isafbris uned yn cael mwy o effaith ar yfwyr cymedrol.
- Byddai isafbris uned yn effeithio fwyaf ar yr yfwyr niweidiol mwyaf difreintiedig. Byddai mwy o effaith ar yfwyr difreintiedig sy'n yfed lefelau cymedrol o alcohol nag ar yfwyr cymedrol eraill, ond mae'r effaith gyffredinol ar yr alcohol y maent yn ei yfed a gwariant yn parhau'n fach.
- Byddai angen cynnydd mawr yn y dreth ar alcohol i gyflawni'r un effeithiau ag isafbris uned o 50c.

Mae gwahaniaethau nodedig rhwng yr effeithiau yng ngwaith modelu 2014 a 2018, gan gynnwys:

- Mae'r amcangyfrif o'r manteision cymdeithasol cyffredinol wedi lleihau o tua £882 miliwn i £783 miliwn yng ngwaith modelu 2018. Y rheswm pennaf dros hyn yw yr amcangyfrifir llai o ostyngiadau yn y costau gofal iechyd uniongyrchol a'r costau sy'n gysylltiedig â throseddau.
- Amcangyfrifir y bydd manwerthwyr yn gweld cynnydd llai mewn elw (£17.8 miliwn) nag a ddangoswyd yng ngwaith modelu 2014 (£27 miliwn).

- Amcangyfrifir y bydd y refeniw blynyddol i'r Trysorlys yn sgil derbyniadau tollau a TAW ar alcohol yng Nghymru yn gostwng 0.4% neu £1.9 miliwn ar ôl cyflwyno isafbris uned o 50c. Yn ôl gwaith modelu 2014, disgwylir i refeniw'r Canghellor ostwng 1% (sy'n cyfateb i £5.8 miliwn).

## 5. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae'r amcangyfrif o gostau a manteision y ddeddfwriaeth wedi'i nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – gweler tudalen 62 ymlaen o'r Memorandwm Esboniadol.

Yr amcangyfrif o gyfanswm y costau yw £2.6 miliwn (gwerth presennol £2.2 miliwn). Mae hyn yn cynnwys costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru (canllawiau, cyfathrebiadau, hyfforddi a gwerthuso) a chostau cydymffurfio ar gyfer manwerthwyr.

Nid yw costau gorfodi yr awdurdodau lleol wedi'u mesur yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ond rhagwelir y byddant yn isel; mae disgwyl i'r ddeddfwriaeth gael ei gorfodi o fewn y drefn arolygu bresennol. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod trafodaethau ar y gweill gydag awdurdodau lleol a Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru ynghylch ariannu gweithgaredd arolygu ychwanegol, yn enwedig yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch hwn wedi'u cadarnhau eto, ond mae trafodaethau cynnar yn awgrymu y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddyrannu £150,000 er mwyn talu am y gweithgarwch arolygu ychwanegol yn y flwyddyn weithredu gyntaf – £100,000 yn yr ail flwyddyn a £50,000 yn y drydedd. (Y Memorandwm Esboniadol, t.108, para.297)

Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, amcangyfrifir mai gwerth y ddeddfwriaeth fydd £882 miliwn dros y cyfnod enghreifftiol o 20 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys costau gofal iechyd uniongyrchol (£131 miliwn), costau troseddu (£248 miliwn), costau gweithle (£14 miliwn) a phrasiad ariannol o'r buddion iechyd (£489 miliwn).

Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae'r buddion cyffredinol hyn wedi gostwng £100 miliwn yn y model a wnaed gan Brifysgol Sheffield yn 2018.

Manteision cyffredinol y Bil (dros gyfnod o 20 mlynedd ar ôl ei weithredu):

	2014	2018
Llai o gostau gofal iechyd uniongyrchol	£131 miliwn	<b>£91 miliwn</b>
Enillion yn sgil canlyniadau iechyd gwell	£489 miliwn	<b>£490 miliwn</b>
Manteision yn sgil llai o droseddu	£248 miliwn	<b>£188 miliwn</b>
Llai o absenoldeb yn y gweithle	£14 miliwn	<b>£14 miliwn</b>
Cyfanswm	£882 miliwn	<b>£783 miliwn</b>

## 6. Ymateb i'r Bil

Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid o blaid y Bil fel mesur iechyd y cyhoedd. Daw'r rhan fwyaf o'r gwrthwynebiad i'r isafbris o du'r diwydiant alcohol (er nad dyma'r achos drwyddi draw - mae archfarchnadoedd mawr, er enghraifft, yn amrywiol eu barn).

Mae cynrychiolwyr llywodraeth leol yn gyfforddus bod y dyletswyddau newydd a osodir arnynt yn cyd-fynd yn dda â'u gweithgareddau presennol, er eu bod wedi tynnu sylw at yr angen am fwy o ddwysedd adnoddau yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r ddeddfwriaeth er mwyn helpu i gydymffurfio â hi'n fuan.

Er bod y polisi'n cael ei gefnogi'n eang, codwyd nifer o bryderon yn ystod proses graffu Cyfnod 1 y Bil, fel y trafodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Diffyg profiad o'r byd go-iawn yn achos isafbrisiau, a'r graddau y gall model mathemategol ragweld effaith y polisi ar yfed alcohol a niwed.
- Pa un a fydd yr isafbrisiau yn cosbi yfwyr cymedrol yn annheg.
- Pa un a fydd effaith anghymesur ar grwpiau incwm isel.

- Sut y bydd y polisi yn effeithio ar yfwyr bregus, dibynnol, gan gynnwys a oes risg y bydd pobl yn cael eu hannog i droi at fathau o alcohol nad ydynt yn eu hyfed, neu gyffuriau anghyfreithlon, pe byddai pris alcohol yn codi.
- Y posibilrwydd y bydd y fasnach drawsffiniol yn cynyddu, ar draul busnesau Cymru.
- Sut y gallai'r diwydiant alcohol ymateb i elw annisgwyl o ganlyniad i isafbrisiau.

Yn ei adroddiad, mae'r Pwyllgor lechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil lechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), ond mae'n rhybuddio bod angen ystyried y Bil ei hun a'r polisi cyffredinol ymhellach.

Mae ein gwaith craffu ar y Bil wedi bod yn drylwyr a chredwn fod y dystiolaeth a gyflwynwyd inni yn nodi bod angen cymryd camau pellach i wella'r Bil, i baratoi ar gyfer ei gychwyn, ac i gefnogi'r broses o'i weithredu. Mae angen cymryd camau pellach hefyd i sicrhau bod effeithiau isafbris uned, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol, yn cael eu monitro a'u deall.

(...)

Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion y credwn y byddant yn cryfhau'r ddeddfwriaeth a'i gweithrediad, ac y byddant yn osgoi rhai canlyniadau anfwriadol posibl, yn enwedig o ran yfwyr dibynnol.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn pwysleisio na fydd isafbrisiau yn effeithiol ar eu pennau eu hunain, a bod angen ystod o fesurau i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol.

## 7. Crynodeb o newidiadau Cyfnod 2

Cynhaliwyd trafodion Cyfnod 2 Bil lechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) gan y Pwyllgor lechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar **3 Mai 2018**.

Ni chyflwynwyd gwelliannau gan Lywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd nifer o welliannau gan y gwrthbleidiau. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â phennu'r isafbris, darparu ar gyfer cyfraniad elusennol gan fanwerthwyr alcohol, canllawiau i fanwerthwyr ar gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth,

hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth a'r trefniadau o ran adrodd ar weithrediad ac effeithiolrwydd y Ddeddf.

Ni dderbyniwyd dim o'r gwelliannau, felly **ni ddiwygiwyd y Bil yng Nghyfnod 2**. Fodd bynnag, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y gallai fod yn barod i weithio gyda'r Aelodau i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3 yn ymwneud â hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a darparu bod y Cynulliad yn craffu ar yr adroddiad gwerthuso ar y ddeddfwriaeth.